**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd Ddisgrifiad: Swyddog Gweithredol Datblygu**

Dyma becyn gwybodaeth ar gyfer swydd:
**Swyddog Gweithredol Datblygu**

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi ei darparu i'ch cynorthwyo gyda'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru ar gael ar [www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)

## Contents


**Croeso** ........ **2**
**Sut i Ymgeisio** ........ **3**
Cymorth Mynediad ........ 3
Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg ........ 4
Ar ôl i chi wneud cais ........ 4
**Swydd Ddisgrifiad Gyflawn** ........ **5**
Amcanion y Rôl ........ 5
Cyfrifoldebau ........ 6
**Isafswm y Gofynion ar gyfer y Rôl** ........ **8**
Gwybodaeth a Phrofiad ........ 8
Sgiliau ac Ymagweddau ........ 8
Sgiliau a Phrofiad Dymunol ........ 9
**Ffilm Cymru Wales** ........ **9**

## Croeso

Diolch am eich diddordeb yn y swydd gyffrous hon. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â Ffilm Cymru mewn cyfnod ble mae'r sefydliad yn tyfu, yn sgil cyllid sydd newydd ei ddirprwyo gan Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru, sy'n ategu ein harian gan Gyngor Celfyddydau Cymru fel eu cynrychiolydd ffilm, a chan Sefydliad Ffilm Prydain.

Rydym hefyd wedi codi arian yn ddiweddar i gefnogi diwydiant sgrîn mwy gwyrdd, ac i ddatblygu ein rhaglen waith Troed yn y Drws, gan chwalu'r rhwystrau economaidd-cymdeithasol sy'n bodoli rhag sicrhau gyrfa ym myd y sgrîn. Fel yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm o Gymru, mae'n bwysig i ni weithio tuag at effaith hirdymor. Er y bydd y rôl hon yn aml yn golygu gweithio mewn ffordd frwdfrydig i yrru ffilmiau nodwedd o Gymru yn eu blaen yn greadigol ac yn strategol, gall hefyd fod yn addas ar gyfer rhywun sydd â diddordeb mewn newid systemig ac sy'n awyddus i weld beth allan nhw ei ddysgu gan adrannau eraill o'r cwmni.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.
*Kim Warner, Pennaeth Cynhyrchu*

# Sut i Ymgeisio

Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat cais gwahanol gyda chi, dylech e-bostio CV a llythyr eglurhaol at Ihsana Feldwick ar ihsana@ffilmcymruwales.com gan nodi eich argaeledd a'ch profiad yn erbyn yr hyn a amlinellir yn y rhestr amodau isod.

**Gyrrwch eich cais atom erbyn 22 Awst 2024, 5pm.**

Nid yw Ffilm Cymru yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs, felly mae'n rhaid bod gennych Hawl i Weithio yn y DU eisoes i wneud cais am y rôl hon.

Cynhelir y cyfweliadau ar yr wythnos sy'n cychwyn 2 Medi 2024, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.

**Cymorth Mynediad**

Credwn mewn sector sgrin sy'n gweithio i bawb ac rydyn ni'n angerddol am ehangu mynediad i'r sector hwnnw.

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i'r holl ymgeiswyr sy'n bodloni lleiafswm ein Meini Prawf ar gyfer y rôl ac sy'n uniaethu fel Pobl o'r Mwyafrif Byd-eang, fel Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig neu F/byddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anghenion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn anabl, yn niwroamrywiol, neu bobl sydd â nam ar eu golwg, mae cymorth ar gael i gwblhau eich cais. Cysylltwch â ni i roi gwybod sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cynnal cyfarfod cyn i chi wneud cais, neu gallwn gynnig cymorth ysgrifenedig i ymgeiswyr dyslecsig, neu gallwn gytuno

ar fformatau amgen ar gyfer gwneud cais megis rhaglenni fideo neu ddeciau sleidiau. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch ag Ihsana Feldwick ar **ihsana@ffilmcymruwales.com** i drafod eich anghenion cyn i chi wneud cais.

**Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg**

Rydym yn agored iawn i gynigion ar gyfer rhannu swydd a gweithio'n hyblyg. Rhowch fanylion eich cynnig am rannu swydd neu weithio'n hyblyg yn eich llythyr eglurhaol, os yn berthnasol.

**Ar ôl i chi wneud cais**

Byddwch yn derbyn cadarnhad fod eich cais wedi'i dderbyn o fewn wythnos o'i gyflwyno, a byddwch yn cael dolen at ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gan bob cwestiwn opsiwn gwell gen i beidio â dweud. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru yn prosesu data ymgeiswyr, cyfeiriwch at ein Polisi Preifatrwydd.

Byddwch yn clywed a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cael cyfweliad o fewn pythefnos i ddyddiad cau'r cais.

disability confident COMMITTED

We are a Living Wage Employer

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales
DO YOU?
Sign our policy today.
www.zeroracismwales.co.uk

# Swydd Ddisgrifiad Gyflawn

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Datblygu, Cynhyrchu & Sgiliau |
| **Swydd:** | Swyddog Gweithredol Datblygu, Llawn amser cyfnod penodol tan 05/07/2025 (potensial i rannu swydd) |
| **Adrodd i:** | Y Pennaeth Cynhyrchu |
| **Lleoliad:** | Cymru. Mae ein swyddfa yng Nghaerdydd ond mae potensial i weithio o bell. |
| **Dyddiadau'r cyfweliad:** | 27 Awst 2024, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Byddwch mor garedig a chadarnhau ar eich ffurflen gais os na fedrwch fynychu unrhyw un o'r dyddiadau yma. |
| **Cyflog:** | £29,250 - £32,500 a phensiwn, a 28 diwrnod o wyliau, yn ogystal â Gwyliau Cyhoeddus. |
| **Sut i ymgeisio:** | Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat amgen ar gyfer eich cais dylech e-bostio CV a llythyr eglurhaol at ihsana@ffilmcymruwales.com yn nodi eich profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai sy'n cael eu hamlinellu yma. |
| **Dyddiad cau:** | 22 Awst 2024, 5pm. |

## Amcanion y Rôl

Cynorthwyo i roi ffilm o Gymru ar y map drwy adnabod a meithrin lleisiau Cymreig unigryw, yn enwedig y rhai sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli ar ffilm, neu sydd eisiau arbrofi gyda'r ffurf gelfyddydol.

Cefnogi'r gwneuthurwyr ffilm rydym yn eu hariannu i symud ymlaen tuag at ariannu eu ffilm a darganfod eu cynulleidfa, gan ddeall na allwn ariannu ffilmiau'n llawn.

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd Ddisgrifiad: Swyddog Gweithredol Datblygu**

Cynorthwyo'r rhai rydym yn eu hariannu i ddatblygu gyrfaoedd cynaliadwy, a chefnogi datblygiad hirdymor y sector sgrîn yng Nghymru drwy annog awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr i ystyried eu heffaith amgylcheddol, ffyrdd cynhwysol o weithio, ac unrhyw gyfleoedd datblygu sgiliau neu ehangu eiddo deallusol o gyfnod cynnar.

**Cyfrifoldebau**

- Cwrdd â gwneuthurwyr ffilm i helpu i'w cynghori ar ein cyllid, gan annog yn enwedig amrywiaeth eang o ymgeiswyr yn unol â'n Cynllun Gweithredu *Mae Ffilm i Bawb*. Bydd hyn yn cynnwys olrhain talent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg sy'n cymryd rhan yn ein dirprwyaethau, ein hyfforddiant, neu yn ein cynllun ffilmiau byr, yn ogystal ag ymateb i ymholiadau o'r tu allan i'r cwmni.
- Darllen ac asesu ceisiadau am arian datblygu gan dalent o bob profiad, yn unol â'n canllawiau ariannu a'n meysydd blaenoriaeth, gan gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau. Yn benodol, bydd deiliad y swydd yn asesu ceisiadau am grantiau bach a mawr am arian datblygu, gan ystyried nid yn unig profiad y tîm cyfan ond hefyd anghenion ariannol y prosiectau, a'r lefel briodol o fuddsoddiad ar gyfer cyfnod datblygu perthnasol y prosiect.
- Darparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.
- Cyhoeddi cytundebau arian datblygu i dempledi.
- Darparu arweiniad golygyddol a strategol i'r rhai sy'n derbyn ein harian datblygu, gan ddarparu nodiadau ar ddrafftiau o sgriptiau ac unrhyw ddeunyddiau sy'n berthnasol i'r cyflwyniad (gall y rhain gynnwys rhagflas byr) ynghyd ag unrhyw agweddau eraill y cytunwyd arnynt parthed ein dyfarniad datblygu, fydd yn rhoi sylw i

anghenion y prosiectau a'r timau mewn dull pwrpasol, a gall gynnwys elfennau fel golygyddion sgript, deunyddiau perthnasol i'r cyflwyniad neu fentoriaeth.

- Gweithio gyda'r Rheolwr Datblygu Talent i baru talentau sydd eisoes ar y llechi, os oes angen. Ni fydd cynhyrchydd gan bob prosiect a gefnogwn, a bydd hwn yn faes allweddol i ddeiliad y swydd ei gefnogi.
- Cefnogi'r cyfranogion i ystyried sgiliau, amrywiaeth a chynhwysiant, ac effeithiau gwyrdd, ynghyd ag unrhyw werth arall o fewn eu prosiect ffilm. Chi fydd yn gyfrifol am gynllun cynaliadwyedd pob prosiect.
- Rhoi cymeradwyaeth allweddol ar brosiectau i ryddhau taliadau fesul rhan, gan fonitro cynnydd y prosiect.
- Cynnal ein llechen ddatblygu.
- Cyfrannu i adroddiadau angenrheidiol, yn enwedig ar gyfer y cyfarfodydd bwrdd chwarterol a'r adolygiadau diwedd blwyddyn.
- Cefnogi Pennaeth yr Adran i ddatblygu ein strategaeth datblygu talent.
- Cynrychioli'r cwmni mewn cyfarfodydd, gwyliau a digwyddiadau, gan ganolbwyntio'n benodol ar feithrin cysylltiadau â darpar ymgeiswyr, arianwyr, asiantau, a swyddogion gweithredol datblygu a chynhyrchu eraill.
- Cyflawni'r holl gyfrifoldebau mewn ffordd sy'n cefnogi gwerthoedd Ffilm Cymru ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd, cyfleoedd cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Ffilm Cymru a'r sector ehangach.
- Cyfrannu at asesiadau ehangach y ceisiadau o fewn yr adran, ar adegau, os bydd angen.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill y gall eich rheolwr llinell eich dirpwyo i'w gwneud, neu ofyn yn rhesymol i chi eu gwneud.

### Dymunol

- Profiad o weithio gyda chynnwys ymdrochol

## Isafswm y Gofynion ar gyfer y Rôl

### Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad blaenorol o weithio mewn prosiect neu mewn rôl datblygu talent o fewn byd ffilm, teledu, theatr neu gynnwys ymdrochol.
- Profiad o ddarparu adborth strategol yn ogystal â golygyddol ar sgriptiau a phecynnau ffilmiau nodwedd a/neu ffilmiau byrion.
- Profiad a pherthnasoedd allweddol yn y diwydiant ffilm.
- Prawf amlwg o hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant.
- Y gallu i ddefnyddio cyfrifiaduron, gyda gwybodaeth ymarferol dda o Microsoft Office (gan gynnwys Teams) a Zoom.

### Sgiliau ac Ymagweddau

- Y gallu i adnabod a meithrin gwaith creadigol a thalent amrywiol.
- Y gallu i weithio'n fanwl gywir.
- Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith da gyda phartneriaethau ariannol, rhanddeiliaid, a'r dalent rydym yn ei chefnogi.
- Hoff o weithio mewn dull cydweithredol ac â diddordeb mewn adnabod pobl sydd â gwaith yn gyffredin iddynt, ac yn teimlo'n gyffrous o weld lle all eu gwaith gefnogi newid ehangach.

- Y gallu i weithio'n bwyllog ac yn ddoeth, yn enwedig wrth gynnig adborth.

**Sgiliau a Phrofiad Dymunol**

- Profiad o weithio gyda chynnwys ymdrochol

## Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm o Gymru ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo sector ffyniannus y gallwn i gyd fod yn falch ohono. Gwnawn hyn drwy:

- Gweithio gyda phartneriaid i wella sefyllfa ffilm yng Nghymru a thu hwnt.
- Creu amgylchedd ar gyfer profi, integreiddio a rhannu ffyrdd mwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd o weithio.
- Denu pobl o bob oed a gallu i ddysgu creadigol.
- Datblygu gweithlu sgrîn y dyfodol trwy amrywiaeth o raglenni hyfforddi.
- Buddsoddi mewn ffilmiau anghyffredin sy'n cymryd risg, a'u gwneuthurwyr, o gyfnod cynnar.
- Cynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ledled Cymru.

Rydym yn rheoli cyllid y Loteri Genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Sefydliad Ffilm Prydeinig, yn ogystal â chyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol. Mae ein gwaith yn cyd-fynd yn agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector.

**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd Ddisgrifiad: Swyddog Gweithredol Datblygu**

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018 lansiwyd ein Cynllun Strategol 2018-2-24 y gellir ei ddarllen yma.